# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Alan James, Barry Mellor, Arwel Roberts, Rhys Thomas, Graham Timms, ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW); Prif Grifydd a Swyddog A.151 (SG); Peiriannydd Risg Llifogydd (WH); Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Sefydliadol (AM) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorydd Tony Thomas yn datgan cysylltiad personol yn eitem 6 gan ei fod yn byw'n agos at yr ardal yr effeithir arni gan lifogydd er nad oedd wedi effeithio ar ei eiddo ef.

Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies gysylltiad personol yn eitem 9 oherwydd ei fod yn Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 POLISÏAU CYFLOGAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Mainon yr adroddiad yn argymell mabwysiadu dau bolisi cyflogaeth newydd a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig oedd yn cynnwys (1) Dileu Swydd a (2) Cydraddoldeb Traws a Rhywioldeb.

Darparwyd crynodeb byr ar bob polisi ac eglurodd y Cynghorydd Mainon yn dilyn adborth y cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi Dileu Swydd presennol i ddarparu polisi mwy strwythuredig gyda rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni cliriach (byddai'r cyfrif dileu swydd yn aros yr un fath), ac roedd Polisi Cydraddoldeb Traws a Rhywioldeb wedi'i ffurfio i roi cyngor ac arweiniad cyffredinol ar faterion traws ac ailbennu rhywedd o fewn fframwaith clir. Roedd y ddau bolisi wedi eu llunio yn dilyn cydweithio cadarnhaol drwy'r broses ymgynghori y cytunwyd arni a derbyniwyd ymateb da ac yn dilyn hynny cymeradwywyd gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Cyflogaeth. Hefyd cadarnhawyd bod y polisïau newydd yn fwy cyson gyda rhai awdurdodau eraill.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo'r polisïau cyflogaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer mabwysiadu yn y Cyngor, a*

*(b) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (atodiad i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 CYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR DWYRAIN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad ar y cynnig ar gyfer cynllun amddiffyn arfordirol yn Nwyrain y Rhyl a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i'r cynllun a gofynion cyllid a'i argymell i'r Cyngor yn unol â hynny.

Dwyrain y Rhyl oedd maes blaenoriaeth uchaf y Cyngor ar gyfer cynllun amddiffyn arfordirol o ystyried y byddai'n fwy tebygol o brofi llifogydd difrifol nag unrhyw le arall yn y sir. Wrth gyflwyno'r achos ar gyfer y cynllun arfaethedig, cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at ddifrod llifogydd Rhagfyr 2013 a bregusrwydd yr ardal yn y dyfodol o safbwynt perygl llifogydd. Roedd ymchwiliad i lifogydd 2013 yn dangos y gall eiddo ddioddef llifogydd yn ystod 1 digwyddiad mewn 20 mlynedd a byddai'r cynllun yn darparu safon priodol o amddiffyniad llifogydd i oddeutu 1650 eiddo gydag amddiffyniad yn erbyn 1 digwyddiad mewn 200 mlynedd. Fodd bynnag, bydd cost y prosiect, sydd wedi'i amcangyfrif yn £27.5m ar hyn o bryd, yn rhoi baich refeniw ychwanegol ar y Cyngor.

Roedd manylion y goblygiadau refeniw a amcangyfrifir a'r rhagdybiaethau ariannol yn seiliedig ar fenthyca presennol wedi'i fanylu o fewn yr adroddiad. Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cefnogi'r argymhelliad a chadarnhaodd fod y Grŵp Buddsoddiad Strategol wedi cymeradwyo'r cynllun. O safbwynt ariannol, amlygodd y newid i'r drefn gyllido ac effaith y newid hwnnw ar refeniw. Er bod y cynllun yn gymwys ar gyfer 75% o gyllid grant Llywodraeth Cymru disgwylir i'r

Cyngor gyllido'r swm cyfan, gyda 75% o'r gost benthyca yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor yn flynyddol drwy'r Grant Cefnogi Refeniw dros 25 mlynedd. Roedd angen cyfraniad o £6.87miliwn gan y Cyngor a byddai angen benthyg y mwyafswm o'r cyllid hwnnw (£2m cyllid cyffredinol wedi'i glustnodi eisoes ar gyfer y cynllun) am gost amcangyfrifiedig o £29mil yn 2020/21, £205mil yn 2021/22 yn codi i £286mil y flwyddyn o 2022/23. Gan dybio na fyddai'r sefyllfa cyllideb refeniw yn gwella byddai'n rhaid i'r swm ad-daliad gael ei glustnodi fyddai'n effeithio ar arbedion/toriadau yn y dyfodol.

Roedd y Cabinet yn derbyn bod achos wedi'i wneud ar gyfer y prosiect o safbwynt amddiffyn rhag llifogydd o ystyried y risg sylweddol i'r gymuned ac ystyriwyd yr elfen gyllido a goblygiadau ariannol datblygu'r cynllun, gan nodi'r ymrwymiad tymor hir oedd yn ofynnol o safbwynt ad-dalu'r benthyciad a'r effaith ar y gyllideb refeniw. Trafodwyd y materion canlynol ymhellach -

- Gofynnodd Mark Young am y risg o orwariant o ystyried na fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am fwy o grant lle'r oedd costau wedi cynyddu uwchlaw'r swm a gymeradwywyd a chadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn atebol am unrhyw orwariant.
  Fodd bynnag roedd y risg wedi'i leihau drwy ddefnyddio fframwaith caffael cadarn oedd wedi arwain at lefel uchel o sicrwydd cost a £4miliwn wrth gefn ar gyfer risg wedi'i gynnwys yn y gyllideb £27.5miliwn gyda lwfans ar gyfer chwyddiant; yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, byddai'r gwaith yn dechrau yn Ebrill 2020.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn amlygu meysydd eraill o fewn y cyngor oedd yn tueddu i ddioddef llifogydd a gofynnodd am effaith ar gyllido cynlluniau llifogydd eraill o ystyried y cyllid sylweddol oedd yn ofynnol yn yr achos hwn.
  Dywedodd swyddogion am reoli llifogydd mewn ardaloedd eraill yn y sir, gan gynnwys cynlluniau arfordirol ac afonol oedd mewn amrywiol gamau datblygu a datblygir drwy'r Bwrdd Rhaglen. Awgrymwyd bod Bwrdd Prosiect Perygl Llifogydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio cynllun Dwyrain y Rhyl a hefyd i ystyried opsiynau ar gyfer cynlluniau eraill. Byddai'r prosiect dod yn ôl at y Cyngor am ystyriaeth bellach os bydd y gost darged derfynol yn fwy na £27.5 miliwn.
- Wrth gofio difrod llifogydd 2013 roedd y Cynghorydd Tony Thomas yn siarad o blaid y cynllun, gan amlygu'r bygythiad posibl i fywyd a difrod i eiddo os byddai yna lifogydd yn y dyfodol a'r angen i warchod y gymuned.
- Roedd y Cynghorydd Mark Young yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â budd cymunedol y cynllun arfaethedig a chadarnhaodd swyddogion y cyfeiriwyd at elfen o fewn yr adroddiad ac wedi'i gynnwys yn y fframwaith caffael.
- ymatebodd swyddogion i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Davies yn dweud bod y Cynllun Rheoli Traethlin yn cefnogi camau'r cynnig, y cyfeirir ato yn adroddiad y Cyngor.
  Hefyd cadarnhawyd y byddai lleihau cwmpas y cynllun yn lleihau safon amddiffyn.
- Roedd y Cynghorydd Barry Mellor yn siarad o blaid y cynllun, gan ganmol y ffordd yr oedd y Cyngor wedi delio â llifogydd 2013 ac roedd yn teimlo y dylai'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol yn gyffredinol o ran materion llifogydd.
  Roedd y Cynghorydd Alan James hefyd yn siarad am y cynllun gan amlygu'r effaith ariannol a lles trigolion.

- O safbwynt amserlenni, os bydd y Cabinet o blaid cefnogi'r argymhellion, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Medi.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn* **–**

*(a)* *cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Les (a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad);*

*(b)* *cefnogi'r cais i symud y cynllun ymlaen at y cam adeiladu, gan ddefnyddio y model cyllido cymorth grant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r cais, a*

*(c)* *argymell i'r Cyngor bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Prosiect Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain Y Rhyl (y Bwrdd Prosiect i'w sefydlu yn dilyn cadarnhad o gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen at y cam adeiladu) i gyflawni'r cynllun, cyn belled nad yw'r gost targed terfynol yn fwy na £27.5 miliwn. Dylid dod a'r prosiect yn ôl at y Cyngor am ystyriaeth bellach os bydd y gost darged derfynol yn fwy na £27.5 miliwn.*

**7 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN**

Cyflwynodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill y cydadroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cost gweithredu'r prosiect i ddarparu Cwmni Masnachu Cyfyngedig Drwy Warant Awdurdod Lleol nid er elw ac i gynghori'r Cabinet ar yr arbediad net diwygiedig i'r Cyngor yn y flwyddyn gyntaf 2020/21.

Roedd y Cyngor wedi cytuno i gefnogi creu LATC ar 30 Mai 2019 ac roedd yr adroddiad yn gam arall o fewn y broses honno. Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod gwaith wedi'i wneud o safbwynt ariannol a benderfynwyd gymaint â phosibl. Er mwyn i'r LATC allu bod yn weithredol erbyn 6 Ebrill 2020 roedd un cost gweithredu o £391mil wedi'i ragamcanu ac roedd arbedion refeniw net cysylltiol yn y flwyddyn gyntaf wedi'i ailasesu a'i ragamcanu i fod yn £785mil. Roedd y Cynghorydd Thompson-Hill hefyd yn ymhelaethu ar y gost ac ystod o ffactorau oedd yn cyfrannu at y rhagamcanion cost terfynol oedd wedi arwain at £18 mil yn llai o arbedion nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. O ganlyniad gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar y gost gweithredu untro a noddi'r targed arbediad oedd ychydig yn llai ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

Ymatebodd swyddogion i gwestiwn gan y Cynghorydd Mark Young, yn dweud fod y Cyngor wedi cymeradwyo creu ADM ac oherwydd bod gweithredu'r gwasanaethau hamdden yn swyddogaeth weithredol gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r cyllid ar gyfer gweithredu. O ganlyniad, nid oedd bwriad ar gyfer yr adroddiad penodol ar gostau gweithredu i fynd i'r pwyllgor craffu er efallai y bydd y prosiect cyffredinol yn ddarostyngedig ar gyfer craffu ar rhyw bwynt. Gall unrhyw aelod wneud cais ar gyfer craffu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Roedd swyddogion hefyd yn ymateb i gwestiynau gan aelodau nad oeddent ar y Cabinet o safbwynt cyfrifoldebau gweithredol a strategol oedd yn ymwneud â'r LATC ynghyd â rheolaethau a threfniadau mewn lle a rhwymedigaethau ariannol. O ran TAW ac Ardreth Annomestig Genedlaethol derbyniwyd cyngor arbenigol yn cadarnhau y gall

yr arbedion a nodwyd yn yr adroddiad gael eu gwireddu yn unol â deddfwriaeth bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi gweithredu'r prosiect i ddarparu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig drwy Warant nid er elw*

**8 CYTUNDEB CYLLIDEB GYFUN AR GYFER LLETY CARTREF GOFAL I BOBL HŶN 2019-2020**

Cyflwynodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill y cydadroddiad ynglŷn â sefydlu un gronfa gyfun ranbarthol heb risg ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn.

Darparodd y Cynghorydd Feeley rywfaint o gefndir a chyfeiriodd at sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o dan Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i symud ymlaen i integreiddio iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithiol. Amlinellodd y dull rhanbarthol arfaethedig i gyflawni'r gofyniad cyfreithiol o ran sefydlu a chynnal cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartref gofal, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod sy'n lletya ar ran chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae cytundeb cyfreithiol wedi'i baratoi i adlewyrchu'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid o ran y gronfa gyfun am dair blynedd. Sylwyd bod y gwariant rhanbarthol cyffredinol yn 2018/19 yn £111miliwn.

Eglurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y fethodoleg ar gyfer y gronfa gyfun gyda phob un o'r saith partner yn darparu cyfraniadau cwbl ar wahân yn cyfateb i'r treuliau oedd yn berthnasol felly'n sicrhau nad oedd unrhyw risg yn cael ei rannu na thrawsgymhorthdal rhwng partneriaid. Eglurodd y byddai £20mil o gyllid trawsnewid a weinyddwyd yn rhanbarthol yn cael ei dalu i Sir Ddinbych i gydnabod cost lletya'r gronfa gyfun ac felly byddai gweithrediad y gronfa yn niwtral o ran cost.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cynnydd a wnaed yn rhanbarthol o ran bodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn;*

*(b) cymeradwyo sefydlu cronfa gyfun nad yw'n rhannu risg ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn fel y nodir yn yr adroddiad, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal, ac i'r trefniadau fod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20;*

*(c) rhoi cymeradwyaeth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru, i reoleiddio'r broses sefydlu, gweithrediad a threfniadau llywodraethu'r gronfa gyfun am gyfnod o 3 blynedd, a*

*(d) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les a atodir fel Atodiad 1 fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538 miliwn (£194.418m yn 2018/19)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £0.912 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- nodwyd fod angen arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.672 miliwn, gan gynnwys arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn), arbedion ysgolion gwerth 2% (£1.32 miliwn) ac arbedion yn y gwasanaethau (£3.852 miliwn).
- amlygwyd risgiau ac amrywiadau cyfredol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, Y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai

Hefyd gofynnwyd i’r Cabinet gymeradwyo adeiladu fflatiau yn y Dell, Prestatyn fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddiad Strategol.

Roedd y Cabinet yn trafod y gorwariant a ragamcanwyd o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Addysg a Gwasanaethau Plant (er gwaethaf cynnydd yn y gyllideb sylfaenol) oedd yn parhau i achosi pryder. Dywedodd y Prif Weithredwr am waith cyfredol gydag Aelodau Arweiniol a’r Uwch Dîm Arwain i reoli’r costau hynny fyddai hefyd yn cael eu trafod fel rhan o’r broses gosod cyllideb cyffredinol. Roedd yr Aelodau Arweiniol ar gyfer y gwasanaethau hynny hefyd yn ymhelaethu ar anawsterau a wynebir a’r angen i flaenoriaethu gwasanaethau i blant ac oedolion agored i niwed. O ran toriadau yn y dyfodol cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y flaenoriaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion agored i niwed oedd yn cynnwys cost ond roedd yn bwysig ystyried pob agwedd o’r busnes ac roedd yn iawn i gwestiynu priodoldeb yr ymyrraeth a’r camau a gymerwyd. Roedd yr Arweinydd yn amlygu nad oedd y pwysau a nodwyd yn unigryw i Sir Ddinbych ac roedd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu hwynebu ac roedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rôl i lobio Llywodraeth Cymru ar eu rhan i sicrhau darpariaeth cyllid priodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies pam na ellir trosglwyddo’r diffyg ar gyfer Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones i’r ysgol newydd. Eglurwyd bod dwy ysgol yn uno i fod yn un ysgol wahanol ac felly yn creu endid cyfreithiol newydd, o ganlyniad ni ellir trosglwyddo balans diffyg nac arian dros ben. Byddai’r ysgol newydd yn dechrau heb falans a phenderfynir ar ei chyllideb newydd yn unol â'r meini prawf arferol e.e. nifer disgyblion ac ati.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*

(b) *chymeradwyo Datblygiad Fflatiau'r Dell, Prestatyn, fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac fel y nodwyd yn Atodiadau 5 a 6 yr adroddiad hwn.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Grŵp Cynllunio Strategol:
  Newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl – i'w hychwanegu ar gyfer mis Medi
- Cytundeb Llywodraethu Cynnig Twf Gogledd Cymru 2 – i'w symud o fis Medi i fis Ionawr

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.